**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Mai 2002

**Amser:** 2.00 i 5.00 pm

**Lleoliad:** Neuadd y Gweithwyr, Blaenafon

**LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU**

**DOGFEN YMGYNGHORI DDRAFFT - STRATEGAETH CERDDED A SEICLO**

**Diben**

1. Hysbysu'r Pwyllgor o waith is-grwp Cerdded a Seiclo Fforwm Trafnidiaeth Cymru, a drafftio'r Ddogfen Ymgynghori.

**Crynodeb**

2. Mae'r ddogfen hon yn cael ei drafftio ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Gwneir cais am ymateb oddi wrth fudiadau sy'n ymwneud â cherddded, seiclo a marchogaeth, grwpiau anabledd, awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol. Gwahoddir y Pwyllgor i roi ei sylwadau ar faterion allweddol ac i nodi unrhyw newidiadau pellach y byddai aelodau yn dymuno eu gweld cyn ei chyhoeddi.

**Amseriad**

3. Cyhoeddir y ddogfen Ymgynghori ar ddechrau mis Mehefin a gofynnir am ymatebion erbyn dechrau mis Medi. Bydd y Strategaeth Cerdded a Seiclo yn cael ei pharatoi erbyn mis Tachwedd 2002.

**Cefndir**

4. Cafodd Fforwm Trafnidiaeth Cymru gyflwyniad gan Sustrans yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2001. Cytunodd y Fforwm i sefydlu is-grwp i ystyried y materion a godwyd ac i helpu i baratoi Strategaeth Cerdded a Seiclo ar gyfer Cymru. Roedd yr is-grwp, a gadeiriwyd gan Andrew Hemmings o'r Is-adran Polisi Trafnidiaeth, yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau cerdded, seiclo a marchogaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, grwpiau anabledd a Chyfarwyddiaeth Drafnidiaeth y Cynulliad. Yn wreiddiol, roedd yr is-grwp yn cynnwys cynrychiolydd o fudiadau

beicio modur. Roedd yn well gan yr aelodau beidio â chynnwys beicio modur nad yw'n cael ei ddatblygu gan is-grwp ar wahân.

5. Cytunodd aelodau'r is-grwp i weithio gyda'i gilydd ar Ddogfen Ymgynghori ddrafft a oedd yn cydnabod y nodweddion cyffredin, y gwrthdaro a'r atebion posibl i gerddwyr, beicwyr a'r rhai sy'n marchogaeth ceffylau. Yn ogystal, mae cynrychiolwyr o Bwyllgor Ymgynghorol Trafnidiaeth Pobl Anabl a'r Access Association yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ategu ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth lwyr i ddarparu cyfleusterau i bobl anabl. Yn arbennig maent yn ceisio cael llwybrau hollol ar wahân ar gyfer y tri dull gwahanol o deithio.

6. Mae'r Ddogfen Ymgynghori ddrafft yn cyd-fynd â'r papur yn gwahodd Ceisiadau am Gefnogaeth ar ffurf Grant Trafnidiaeth yn 2003-2004, a phapur yr Is-adran Cefn Gwlad ar gael mwy o fynediad i gefn gwlad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW). Mae hefyd cysylltiadau agos â'r argymhellion yn y Strategaeth Diogelwch Ffyrdd sy'n ymddangos. Mae'r is-grwp wedi cydnabod rhywfaint o orgyffwrdd, er enghraifft wrth argymell 'Enillion Cyflym' sy'n bodloni amcanion deuol Diogelwch Ffyrdd ac wrth annog teithio cynaliadwy.

**Cydymffurfiaeth, Goblygiadau Ariannol ac Effeithiau Eraill**

7. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol o fwrw ymlaen gyda chyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori.

**Themâu Trawsbynciol**

8. Mae'r ddogfen wedi'i hysgrifennu yng nghyd-destun cynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad a'i ymrwymiad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae'r Fframwaith Trafnidiaeth i Gymru a'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd wedi darparu cyd-destunau'r polisïau.

**Camau Gweithredu ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth**

9 Ystyried y drafft hwn a chynnig unrhyw sylwadau pellach cyn i'r Ddogfen gael ei hanfon at aelodau Fforwm Trafnidiaeth Cymru a'i chyhoeddi'n ffurfiol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**Pwynt Cyswllt**

Andrew Hemmings, Is-adran Polisi Trafnidiaeth, est 6947

andrew.hemmings@wales.gsi.gov.uk